# Gadewch Inni Bwyllo Cyn Rhannu



**Maes Pwnc:**
Cadernid Digidol/Diogelwch Ar-lein

**Grŵp Oed:**
CA2

**Amcan Dysgu:**
Dysgu am ddiogelwch ar-lein a sut i gael mynediad at gymorth sydd ar gael yn yr ysgol a thu allan iddi.

**Deilliannau Dysgu:**
Bydd dysgwyr yn dod i ddeall canlyniadau tynnu ffotograffau sy'n dangos unrhyw ran o'r corff a fyddai fel arfer yn cael ei guddio gan ddillad nofio, a'u rhannu ar-lein.

## Sut i ddefnyddio Adnodd Pwyllo Cyn Rhannu SchoolBeat

1. Cysylltwch â'ch **Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion** (SHCY) os oes gennych ddiddordeb cyflwyno'r adnodd hwn yn eich ysgol chi.
2. Bwriedir y **ffilm** a recordiwyd gan y SHCY fod yn gyflwyniad i'r pwnc.
3. Mae'r **llyfr gwaith** Pwyllo Cyn Rhannu'n addas ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 2, ac mae'n anelu i atgyfnerthu'r negeseuon diogelwch allweddol sy'n ymwneud â thynnu ffotograffau sy'n dangos unrhyw ran o'r corff a fyddai fel arfer yn cael ei guddio gan ddillad nofio, a'u rhannu ar-lein.
4. Bydd angen i ddysgwyr wylio **ffilm ymgyrch Pwyllo Cyn Rhannu'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant**, sef *'Gwelais i dy 'willy' di'*, er mwyn cefnogi cwblhau'r llyfr gwaith.

**Cymraeg - https://youtu.be/eB-xQVShDEc**
**Saesneg - https://youtu.be/iofMV1HVQOY**



5. Ar ôl iddynt wylio'r ffilm, bydd disgyblion yn elwa o drafodaeth fyw gyda'u SHCY. Gellid cyflawni hyn drwy wahodd SHCY eich ysgol i sesiwn holi ac ateb fyw drwy Microsoft Teams neu lwyfan addas arall.
6. Dylid cyflawni gwaith paratoi gyda'r dysgwyr cyn gwahodd y SHCY ar-lein er mwyn uchafu'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael.

**Os oes gennych unrhyw adborth mewn perthynas â'r adnodd hwn, cysylltwch â'ch SHCY neu anfonwch e-bost at feedback@schoolbeat.org**

SchoolBeat.cymru